OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 77

# Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## RHAN 10

### Amrywiol

**Dirymu**

**48.**—(1) Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010(**1**) wedi eu dirymu fel a ganlyn—

(a) mewn perthynas â daliad neu ran o ddaliad a oedd wedi ei leoli neu wedi ei lleoli mewn parth perygl nitradau fel a ddangosir ar y map perthnasol o'r enw "Parthau Perygl Nitradau Map Mynegai 2013"(**2**), ar 1 Ebrill 2021;

(b) mewn perthynas â phob daliad arall—

(i) rheoliadau 3 a 9 ar 1 Ebrill 2021;

(ii) pob darpariaeth sy'n weddill ar 1 Awst 2024.

(2) Mae'r canlynol wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013;

(b) Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2015(**3**);

(c) Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2019(**4**).

(**1**) O.S. 2010/1493 (Cy. 136).

(**2**) O dan reoliad 7(3) o Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (O.S. 2013/2506) (Cy. 245) yr oedd yn ofynnol i fap o'r fath gael ei adneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(**3**) O.S. 2015/2020 (Cy. 308).

(**4**) O.S. 2019/863 (Cy. 155).